# Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)
# Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

## Cyflwyniad

Mae'r Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety i Ymwelwyr (Cymru) ("y Bil") yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol i gynllun trwyddedu ar gyfer llety i ymwelwyr yng Nghymru, gan ddechrau gyda llety hunanarlwyo. Bydd y cynllun hwn yn cefnogi twristiaeth yng Nghymru, drwy sicrhau ymwelwyr bod llety yn bodloni'r safonau y byddent yn eu disgwyl a darparu trefn glir i ddarparwyr.

Mae'r cynllun hwn yn adeiladu ar y gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr, fel y nodir yn Neddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 ("Deddf VARL"). O dan y Ddeddf honno, bydd Awdurdod Cyllid Cymru (WRA) yn sefydlu, cynnal a chyhoeddi'r gofrestr o ddarparwyr, a fydd hefyd yn manylu ar y math o safleoedd y maent yn eu gweithredu ledled Cymru a'u lleoliad. Gall yr wybodaeth hon fod o ddiddordeb i awdurdodau lleol, ymwelwyr, busnesau ac ymchwilwyr, a bydd yn llywio'r cynllun trwyddedu yn y dyfodol.

Bydd y Bil yn ategu mesurau eraill a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r heriau sy'n deillio o nifer uchel o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr mewn ardaloedd penodol yng Nghymru. Canlyniad eilaidd y Bil hwn fydd sicrhau mwy o gysondeb rhwng y drefn rheoleiddio llety ymwelwyr hunanarlwyo â threfn rheoleiddio'r sector preifat, gan gyflwyno safonau cyson ar gyfer y llety hwnnw, a monitro cydymffurfiaeth â'r safonau hynny.

Mae'r Bil hefyd yn creu Cod Cyfraith Cymru ar dwristiaeth a fydd yn ymgorffori'r ddeddfwriaeth bresennol ar ddatblygu twristiaeth yng Nghymru, gyda'r bwriad o wella hygyrchedd deddfwriaeth ym maes twristiaeth.

## Effaith pa benderfyniad ydych chi'n asesu?

Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Iechyd yn ystyried effaith Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) ("y Bil") ar iechyd y rheini sy'n gweithredu llety ymwelwyr ac iechyd y rheini sy'n byw, yn mynd ar wyliau ac yn gweithio yng Nghymru.

## Effeithiau ar Iechyd

Yn gyffredinol, disgwylir mai effaith ymylol yn unig a gaiff y cynllun trwyddedu ar iechyd, ac ni fydd modd mesur yr effaith hon.  Mae'n heriol iawn ynysu effaith uniongyrchol y cynllun ac unrhyw effeithiau achosol, a dim ond cyffredinoli y gellir ei wneud.

Fel yr eglurwyd yn yr asesiad effaith rheoleiddiol, bydd y cynllun trwyddedu yn effeithio'n gadarnhaol ar y diwydiant twristiaeth yng Nghymru ac ar gymunedau lle mae'r diwydiant yn bresenoldeb amlwg.  Mae twristiaeth yn arwain at effeithiau cadarnhaol a negyddol ar iechyd ac nid oes disgwyl i'r cynllun trwyddedu effeithio'n sylweddol ar gyfanswm nifer yr ymwelwyr.

Ni allwn ragweld sut y bydd y cynllun yn effeithio ar nifer yr ymwelwyr â Chymru, ond rydym yn disgwyl i unrhyw effaith fod yn fach.  Hyd yn oed os bydd rhai darparwyr llety ymwelwyr yn gadael y sector fel bod cyfanswm y llety hunan-arlwyo sydd ar gael i ymwelwyr yn lleihau, gallai hyn arwain at lai o arosiadau dros nos gan ymwelwyr â Chymru - neu, i'r gwrthwyneb, at well cyfraddau meddiannaeth i'r darparwyr sy'n weddill.  Nid yw'n bosibl rhagweld pa gyfran o ddarparwyr a allai ffafrio gadael y farchnad yn hytrach na chydymffurfio â gofynion statudol.  Nid oes unrhyw dystiolaeth sylweddol bod y sector yn crebachu o ganlyniad i gyflwyno cynlluniau trwyddedu tebyg mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig a thu hwnt.

Fodd bynnag, gall cyflwyno'r cynllun effeithio ar ddarparwyr llety unigol, sy'n cael ei drafod ymhellach isod.  Rydym wedi ystyried profiad mewn rhannau eraill o'r DU wrth ddatblygu cynigion y cynllun, er mwyn lleihau unrhyw effeithiau niweidiol.

**Effeithiau Cadarnhaol Twristiaeth ar Iechyd**

Mae canlyniadau iechyd yn cyfateb yn gadarnhaol i dwf economaidd.  Er enghraifft, byddai cynnydd mewn galw yn y diwydiant twristiaeth yn arwain at fwy o wario - ac felly byddai potensial ar gyfer mwy o swyddi, mwy o fuddsoddi, a safonau byw uwch. Mae'r pethau hyn yn eu tro yn effeithio'n gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd fel disgwyliad oes a blynyddoedd o fywyd iach.[1] Mae astudiaeth gan Cavicchioli a Pistoresi a ddyfynnwyd gan Predkiewicz et al. yn awgrymu bod cynnydd o 1% mewn gwerth ychwanegol gros yn lleihau marwolaethau 0.27%[2].  Felly, gallwn ddod i'r casgliad, pe bai'r cynllun yn effeithio'n gadarnhaol ar yr economi, y gallai effeithio'n gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd mesuradwy.

I roi cyd-destun, roedd y saith diwydiant sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn cyfrif am 5.1% o'r gwerth ychwanegol gros yng Nghymru yn 2022. [link to 2024 Wales Visitor Economy Profile].  Felly, gallai unrhyw dwf economaidd cadarnhaol arwain at ganlyniad cadarnhaol i iechyd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ystyried sut gallai unrhyw dwf mewn twristiaeth effeithio ar ddiwydiannau eraill a allai gynyddu, gwrthbwyso neu ddileu unrhyw effeithiau cadarnhaol. Felly, nid yw'n bosibl dweud beth fyddai'r effaith wrthrychol ar iechyd o ganlyniad i gynnydd neu ostyngiad yng ngalw'r diwydiant twristiaeth.

I'r rheini sy'n gweithio yn y diwydiant twristiaeth, byddai effaith economaidd gadarnhaol yn arwain at fwy o wariant neu alw yn y diwydiant twristiaeth. Gallai hyn, yn ei dro, gynyddu sicrwydd swyddi a chyfleoedd gyrfa yn y diwydiant twristiaeth a lletygarwch, cynyddu cyflogau a chodi safonau byw. Yn yr un modd, dylai cynnydd mewn ffyniant

economaidd lleol wella cyflogau a safonau byw yn fwy cyffredinol, a ddylai yn ei dro arwain at wella canlyniadau iechyd. Fodd bynnag, byddai cwmpas a graddfa unrhyw fudd yn dibynnu ar amgylchiadau economaidd ehangach, felly mae'n annhebygol y gellid mesur unrhyw effaith yn uniongyrchol o ystyried y rhyngweithio rhwng:

- ffactorau economaidd (fel trethiant, chwyddiant a pherfformiad economaidd) a
- ffactorau unigol (iechyd, cyfoeth, incwm, amgylchiadau bywyd, teulu, dyled ac ati).

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi fframwaith o ddangosyddion a chanlyniadau iechyd mesuradwy sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae gan Lywodraeth Cymru fframwaith perfformiad sefydledig ar gyfer y GIG yng Nghymru. Mae mesuriadau gwrthrychol yn ymwneud â'r hyn y gellir ei fesur yn uniongyrchol, er enghraifft: cyfraddau marwolaethau, mynediad at wasanaethau, amseroedd aros, disgwyliad oes, y galw am wasanaethau iechyd, buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd, blynyddoedd o fywyd iach a metrigau eraill.

Mae ymwelwyr yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau: bydd damweiniau ac anafiadau yn digwydd pan fydd ymwelwyr ar wyliau a bydd yr angen am driniaeth leol yn effeithio ar wasanaethau iechyd lleol a ddarperir gan fyrddau iechyd. Nid yw'n bosibl meintioli'r ffigurau hyn ac mae diffyg ymchwil am effeithiau twristiaeth ar ddarparu gwasanaethau iechyd. Fodd bynnag, wrth i ymwelwyr gynyddu'r boblogaeth dros dro, mae'r ymwelwyr hynny y mae angen triniaeth neu ofal meddygol arnynt yn cael effaith ychwanegol ar wasanaethau lleol.

Nid yw'r data'n gwahaniaethu rhwng preswylwyr ac ymwelwyr, na'r rhesymau y tu ôl i'w defnydd o'r gwasanaethau hynny. Hefyd, efallai fod ffactorau eraill sy'n cyfrannu at ddarparu gwasanaethau iechyd mewn ardal benodol yn unig, yn hytrach na thwristiaeth yn gyffredinol neu'r cynllun trwyddedu, megis lefelau staffio mewn ardal, ysbyty neu adran benodol.

**Effeithiau Negyddol Twristiaeth ar Iechyd**

Mae astudiaeth gan Sari et al. 2021[3] yn awgrymu y gall twf twristiaeth mewn ardal effeithio’n negyddol ar iechyd y cyhoedd a’r ecosystem [4].

Gall mynd y tu hwnt i gapasiti cario cyrchfan arwain at or-dwristiaeth a gallai hyn beri risgiau ychwanegol i breswylwyr fel mwy o lygredd, traffig, gorlenwi a chynhyrchu gwastraff. Gall yr agweddau negyddol hyn gynyddu'r risg o ledaenu clefydau heintus, lleihau ansawdd aer, cynyddu allyriadau, ac achosi difrod amgylcheddol. Mae'r ffactorau hyn yn cyfrannu at ganlyniadau iechyd negyddol[5], ac mae'r cysylltiad rhwng ansawdd aer gwael ac iechyd wedi'i hen sefydlu.

Yn yr un modd, mae twristiaeth yn aml yn cynhyrchu mwy o draffig. Felly, mae twf mewn twristiaeth yn gofyn am fwy o wariant a rheolaeth ar gyfer gwasanaethau

cyhoeddus fel rheoli gwastraff, mesurau rheoli traffig, meysydd parcio, cynnal a chadw ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Gallai'r cynllun trwyddedu wella'r cwmpas i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn, drwy hyfforddiant ac arferion gorau, fel y trafodir isod.

**Effeithiau cadarnhaol y cynllun trwyddedu ar iechyd**

Fel yr eglurwyd uchod, gallwn ddod i'r casgliad, pe bai'r cynllun trwyddedu yn effeithio’n gadarnhaol ar yr economi, y gallai effeithio’n gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd mesuradwy.

Gallai'r cynllun hefyd fod â budd cadarnhaol posibl o well diogelwch a thawelwch meddwl i ymwelwyr. Y rheswm am hyn yw y bydd yn ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr fodloni gofynion ac amodau trwydded. Bydd y ffocws cychwynnol ar faterion diogelwch allweddol, a allai wella diogelwch mewn rhai cartrefi a/neu ddiogelwch i ymwelwyr.

Gallai arwain at ganlyniadau cadarnhaol i iechyd cyhoeddus trigolion hefyd, nid ymwelwyr yn unig, oherwydd gofynion y drwydded, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â diogelwch. Mae hyn yn fwy tebygol pan fydd yr eiddo sy'n destun trwydded hefyd yn cael ei ddefnyddio fel tŷ gwyliau/ail gartref gan drigolion Cymru, neu safleoedd dau bwrpas sy'n cael eu defnyddio fel llety i ymwelwyr ond sydd hefyd yn brif breswylfa i'r darparwr a'i deulu.

Fel y nodir uchod ac yn yr asesiad effaith rheoleiddiol, ni fyddai'n bosibl mesur unrhyw effaith, nac ai effaith achosol yr effaith honno yw'r cynllun trwyddedu (naill ai'n uniongyrchol, yn unig neu fel arall).

Fel rhan o'r cynllun trwyddedu, drwy'r hyfforddiant a chysylltu â mentrau twristiaeth gynaliadwy arfer gorau, efallai y bydd yr awdurdod trwyddedu yn gallu hyrwyddo mentrau neu ffyrdd o wella mewn meysydd fel ynni gwyrdd, lleihau ac ailgylchu carbon neu leihau gwastraff, a allai helpu i liniaru effaith twristiaeth ar yr amgylchedd ac felly iechyd y cyhoedd.

Bydd cysylltiad agos rhwng y cynllun trwyddedu a'r gofrestr genedlaethol o ddarparwyr llety yng Nghymru o dan Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestru ac ardoll) Etc (Cymru) (Deddf VARL). Gyda'i gilydd, gallai'r rhain helpu i gyfathrebu â'r sector twristiaeth os bydd argyfwng iechyd y cyhoedd. Un o'r meysydd a archwiliwyd ym Modiwl 2B[6] Ymchwiliad Covid-19 y DU oedd ymgyrchoedd cyfathrebu iechyd y cyhoedd yng Nghymru mewn perthynas â rheoli lledaeniad y feirws. Rydym yn aros am yr adroddiad ar y modiwl.

**Effeithiau negyddol y cynllun**

Nid oes disgwyl i'r cynllun gael effeithiau negyddol sylweddol ar iechyd, er ein bod yn cydnabod straen posibl unrhyw newid ar weithredwyr unigol. I'r gwrthwyneb, mewn

tystiolaeth i Senedd Cymru wrth graffu ar Ddeddf VARL, mae'r Gymdeithas Broffesiynol Hunan-arlwywyr (PASC) wedi tynnu sylw at y ffaith y byddai'r cynllun trwyddedu yn cael ei groesawu yng Nghymru ar yr amod nad yw'n rhy feichus.

Un broblem bosibl yw bod yn anghyfarwydd â systemau digidol, ac rydym yn gwybod bod hyn yn gallu achosi straen i rai pobl. Byddwn yn sicrhau bod mecanweithiau cymorth yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer y darparwyr llety ymwelwyr hynny a allai cael trafferth defnyddio'r system ddigidol. Fodd bynnag, gan y bydd yn gysylltiedig â'r cynllun cofrestru, a fydd eisoes yn weithredol (ac yn darparu cymorth digidol), credir y bydd y risg o ddarparwyr llety ymwelwyr yn cael trafferth gyda'r system drwyddedu ddigidol yn isel iawn.

**Profiad yr Alban**

Mae tystiolaeth o effaith negyddol ar lefelau straen ac iechyd meddwl gweithredwyr twristiaeth a'u teuluoedd ar ôl cyflwyno'r Cynllun Trwyddedu Rhentu Tymor Byr yn yr Alban.

Yn ôl arolwg a gynhaliwyd gan Gymdeithas Hunan-arlwywyr yr Alban yn 2024,[7] roedd rheoleiddio diweddar wedi effeithio'n 'negyddol' neu'n 'negyddol iawn' ar iechyd meddwl a llesiant dros ddwy ran o dair (68%) o bobl ar draws yr Alban. Roedd hyn yn arbennig o ddifrifol yng Nghaeredin lle'r oedd tua 90% o weithredwyr wedi gweld effaith negyddol neu negyddol iawn.

Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at y niwed emosiynol, fel diffyg cwsg, gorbryder, materion iechyd sy'n gysylltiedig â straen, a theimladau o ddiymadferthedd, yn enwedig gydag ansicrwydd incwm a hyfywedd busnes yn y dyfodol. Soniodd llawer o ymatebwyr hefyd am gost uchel cydymffurfio, beichiau gweinyddol, ac oedi o ran ceisiadau trwyddedu, yn enwedig i'r rheini sy'n dibynnu ar hunan-arlwyo fel eu prif incwm.

Fodd bynnag, er bod y cynllun yn yr Alban yn debyg o ran natur i'r cynllun hwn, mae gwahaniaethau allweddol, yn enwedig o ran cynllunio, a oedd yn ymddangos yn ffactor a arweiniodd at ganlyniadau'r arolwg hwnnw. Rydym wedi ystyried canfyddiadau'r arolwg hwnnw yn y cynigion a wnaed yn y Bil.

Ar ben hynny, gellid tybio nad yw'r data o arolygon am faterion o'r fath yn gwbl ddibynadwy, gan fod y rheini sy'n anfodlon yn fwy tebygol o ymateb (ac ymateb yn negyddol), na'r rheini sy'n fodlon ac nad ydynt yn wynebu unrhyw broblemau perthnasol.

**Casgliad**

I gloi, mae maint unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar iechyd sy'n deillio o gynllun trwyddedu yn dibynnu ar nifer o ffactorau, a rhagwelir y byddant yn fach. Ar ben hynny, mae unrhyw awgrym o effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar iechyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyfres o dybiaethau gael eu gwneud yn seiliedig ar yr effaith

economaidd bosibl neu effaith y galw ar y diwydiant twristiaeth mewn cyrchfan, neu ar ymateb ymddygiadol darparwyr llety ymwelwyr ac ymwelwyr.

Nid yw'n bosibl nodi na mesur yn bendant effeithiau iechyd cadarnhaol neu negyddol uniongyrchol o'r cynllun trwyddedu. Yn hytrach, mae casgliadau wedi'u gwneud ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, sy'n gyfyngedig. Mae'r rhain yn gyfyngiadau allweddol i'w hystyried wrth ddarllen yr asesiad hwn.

Felly, gall y cynllun trwyddedu arfaethedig effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar iechyd.

Mae'r effeithiau cadarnhaol yn cynnwys canlyniadau iechyd gwell yn sgil unrhyw effaith economaidd gadarnhaol. Ar ben hynny, yr effeithiau cadarnhaol posibl ar iechyd a llesiant y rheini sy'n defnyddio neu'n byw mewn llety ymwelwyr oherwydd gwelliannau yn yr eiddo o ganlyniad i ofynion y cynllun trwyddedu.

Mae'r effeithiau negyddol posibl ar iechyd i'r gwrthwyneb, dirywiad mewn canlyniadau iechyd o ganlyniad i effaith economaidd negyddol. Ar ben hynny, y risg o effaith negyddol ar iechyd meddwl a llesiant darparwyr llety ymwelwyr oherwydd baich y cynllun.  Fodd bynnag, mae sicrhau bod y cynllun trwyddedu yn syml, yn ddidrafferth ac nad yw'n creu beichiau diangen ar ddarparwyr llety ymwelwyr wedi bod yn ffactor allweddol wrth ei ddatblygu.

Yn y pen draw, er ein bod o'r farn y bydd y cynllun arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol yn gyffredinol, nid yw'n debygol y bydd modd mesur unrhyw effeithiau ar iechyd sy'n deillio ohono. Y rheswm am hyn yw eu bod yn effeithiau anuniongyrchol ac nad ydynt yn digwydd ar wahân i ffactorau economaidd-gymdeithasol, amgylcheddol a rheoleiddiol ehangach.

[1] Song Y, Su Z-W, Tao R ac Umut A, 2022, 'Revealing the Effectiveness of Tourism Development on Health in Asian Economies.', *Front. Public Health* Cyfrol 10, dyddiad cyhoeddi: 10.3389/fpubh.2022.895221
Predkiewicz et al. 2022, 'An impact of economic slowdown...'
[2] Ibid.
[3] Sari, F.O. a Nazli, M. (2021), "Exploring the effects of "excessive tourism growth" on public health and ecosystem", *Journal of Hospitality and Tourism Insights*, Cyfrol 4 Rhif 1, tt. 1-17
[4] *ibid. T.3*
[5] How air pollution is destroying our health (who.int)
Josep Lloret, Arnau Carreño, Hrvoje Carić, Joan San, Lora E. Fleming, 2021,'Environmental and human health impacts of cruise tourism: A review', Marine Pollution Bulletin, Cyfrol 173, Rhan A, 112979, ISSN 0025-326X, https://doi.org/10.1016/j.marpolbul.2021.112979.
(https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0025326X21010134)
[6] Strwythur yr Ymchwiliad - Ymchwiliad Covid-19 y DU (covid19.public-inquiry.uk)
[7] Impact of short-term let regulations on mental health in Scotland's self-catering sector: a policy-oriented framework for future resilience